



## Llais y Goedwig

### Swydd Ddisgrifiad

#### Rheolwr Prosiect Dewis Gwyllt

Teitl y Swydd: Rheolwr Prosiect Dewis Gwyllt

Yn atebol i: Rheolwr Prosiectau Llais y Goedwig

Cyflog: £29000 y flwyddyn pro rata a delir yn fisol fel ôl-daliad

Lleoliad: Hyblyg, gyda chyswllt rheolaidd â phrif swyddfa Llais y Goedwig ym Machynlleth a ledled Cymru a theithio yno'n rheolaidd.

Hyd: Mae hwn yn gyfnod penodol o Fai 2019 hyd at Ragfyr 2021

Oriau: 22.5 awr yr wythnos, fel rheol dydd Llun i Gwener. Mae gweithio  
gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ofynnol ar brydiau.

Gwyliau statudol: 20 diwrnod (pro rata) a gwyliau cyhoeddus.

Cyfnod prawf: Mae'r swydd yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o  
dri mis yn llwyddiannus.

Pensiwn: Wyth y cant o'r cyflog am oriau safonol, cytundebol - yn ogystal â'r  
cyflog a nodwyd uchod

### **TROSOLWG/AMCANION Y SWYDD**

Diben y swydd hon yw rheoli darpariaeth y Prosiect Dewis Gwyllt (prosiect a ariennir gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) 2014-2020 a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (CAEDG) a Llywodraeth Cymru) i ddatblygu a phrofi hyfywedd cadwyni cyflenwi sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac sydd â chymhelliant cymdeithasol ar gyfer adnoddau coetiroedd gwyllt yn economi Cymru.

I gyflawni hyn, bydd Rheolwr y Prosiect yn gweithio dan gyfarwyddyd Rheolwr Prosiectau Llais y Goedwig (LlyG), ac mewn cydweithrediad agos ag aelodau o [Wild Resources Limited](#) (partneriaid yn y Prosiect), staff, aelodau a phartneriaid eraill Llais y Goedwig:

- Sicrhau yr ymgwymerir â gweithgaredd peilot cadwyn gyflenwi Dewis Gwyllt gyda grwpiau coetir cymunedol, a chyflenwyr a phrynwyr lleol a chenedlaethol
- Rheoli cyhoeddusrwydd a chyfryngau lleol trwy gydol y prosiect, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol
- Sicrhau bod Grŵp Llywio Dewis Gwyllt yn cynrychioli holl arbenigwyr perthnasol y sector
- Sicrhau bod y prosiect yn cael ei darparu o fewn ffiniau canllawiau'r Rhaglen Datblygu Gwledig

### **CYFRIFOLDEBAU A THASGAU ALLWEDDOL**

Bydd Rheolwr Prosiect Dewis Gwyllt yn gweithio dan gyfarwyddyd Rheolwr Prosiectau LlyG, ac mewn cydweithrediad agos â *Wild Resources Limited*, staff eraill Llais y Goedwig ac aelodau Llais y Goedwig i:

- Drefnu a chynnal cyfarfodydd Grŵp Llywio ag aelodau sy'n briodol â'r cam penodol hwnnw o'r prosiect. Lledaenu gwybodaeth ynghylch y prosiect i'r Grŵp Llywio.
- Ymchwilio i adnoddau cynnyrch gwyllt sy'n bodoli eisoes yng nghoetiroedd cymunedol ac o bosibl y rhwydwaith coetir ehangach yng Nghymru
- Ymchwilio i brynwyr a chynhyrchwyr cynnyrch coetir gwyllt posibl - cysylltu cyflenwyr â chynnyrch a chytuno ar werthiannau yn ôl yr angen
- Trefnu profion cynaeafu ar ddetholiad o safleoedd coetir cymunedol
- Gweithio gyda chanolfannau Technoleg Bwyd perthnasol i sicrhau bod yr holl agweddau cyfreithiol a diogelwch ar brosesu a storio cynnyrch yn cael eu hadnabod a'u dogfennu.
- Ymgymryd â hyfforddiant cynaeafu, ôl-gynaeafu a dulliau prosesu yn ôl yr angen a hyfforddi eraill mewn dulliau a thechnegau
- Trefnu a mynychu digwyddiadau a gweithdai mewn digwyddiadau annibynnol ac fel rhan o ddigwyddiadau mwy gyda Llais y Goedwig
- Cyfrannu at drafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff ardystio ar godau ymddygiad, lefelau cynaeafu cynaliadwy a rheolau ynghylch cynaeafu
- Cyfrannu at drefnu a mynychu ymweliadau i fentrau ymchwil a mentrau eraill yn y DU a thramor o bosibl
- Rheoli cyllidebau'r prosiect, cyflwyno hawliau yn chwarterol a sicrhau bod y prosiect wedi'i ddarparu yn unol â chanllawiau perthnasol y Rhaglen Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru

**Ymgymryd â thasgau eraill fel y cyfarwyddir gan Reolwr Prosiectau Llais y Goedwig**

## **SGILIAU, GWYBODAETH A PHROFIAD**

- Sgiliau rheoli prosiect a gweinyddu da
- Profiad o reoli cyllideb
- Casglu tystiolaeth, arolygon, ysgrifennu adroddiadau
- Trefnu a chynnal digwyddiadau a gweithdai
- Profiad o goetiroedd cymunedol neu fentrau amgylcheddol cymdeithasol eraill
- Profiad o weithio yn y sector bwyd neu borthiant
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol - bydd angen i chi ddatblygu perthnasau gweithio effeithiol gyda grwpiau, busnesau bychain a sefydliadau yn sydyn ac effeithiol
- Gallu gweithio ar eich pen eich hun yn aml ond gallu gweithio dan gyfarwyddyd ac ar y cyd hefyd
- Ysbrydoli ffydd a hyder - drwy fod yn gysylltydd a hwylusydd
- Bodlon trosglwyddo gwybodaeth a sgiliau i eraill
- Dealltwriaeth o weithio mewn Llywodraeth ddatganoledig a Lleol yng Nghymru
- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg (dymunol)
- Profiad o systemau hawlio ac adrodd ar-lein Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

## **ADRODD A GORUCHWYLIAETH**

- 3 mis o gyfnod prawf
- Byddwch yn gweithio dan gyfarwyddyd Rheolwr Prosiectau Llais y Goedwig, a fydd yn adrodd i Fwrdd Cyfarwyddwyr LlyG ac yn cysylltu â nhw, i gynllun gwaith cytunedig
- Darparu adroddiadau cynnydd ffurfiol ysgrifenedig i Reolwr Prosiectau LlyG, Bwrdd LlyG a Llywodraeth Cymru bob 3 mis ar ffurf gytunedig.
- Darparu adroddiadau cynnydd a thafleuni amser i Reolwr Prosiectau LlyG yn ôl yr angen i'w cynnwys yn adroddiadau'r bwrdd ac adroddiadau chwarterol i gyllidwyr
- Sicrhau eich bod yn glynu at lawlyfr staff LlyG o ran polisiau, gweithdrefnau ac ymddygiad